

Monitro a Gwerthuso

Pam? Beth? Sut?



Wrth wneud eich AROLWG AMGYLCHEDDOL rydych wedi cael casglu llawer o syniadau am bethau o fewn yr 9 TESTUN y gallech eu gwneud i sicrhau gwelliannau. Rydych wedi trafod ac wedi penderfynu ar eich targedau ac wedi eu cynnwys yn eich CYNLLUN GWEITHREDU. Rydych erbyn hyn yn rhoi eich cynllun gweithredu ar waith ac mae angen i chi weld a yw'n gweithio ai peidio. Gweld a ydych yn gwneud gwahaniaeth! Oherwydd dyma bwynt y cyfan!!!

Pam?

Heb fonitro cynnydd targedau ein cynllun gweithredu ni fyddwn byth yn siŵr faint o waith da yr ydym yn ei gyflawni. Da o beth bob amser yw medru cynnig ffeithiau a ffigurau fel prawf o'r gwaith. Dyna sut y medrwn ddathlu ein llwyddiant a gwneud penderfyniadau am welliannau pellach.

Beth?

Monitro yw cadw cofnod o rywbeth sydd yn digwydd.

Gwerthuso a wneir wrth drafod yr wybodaeth a gasglwyd a dod i gasgliadau.

Mae'r ddwy elfen mor bwysig â'i gilydd ac yn mynd law yn llaw ym mhroses Eco-Sgolion.

Dyma beth yw monitro a gwerthuso:

- Casglu gwybodaeth er mwyn canfod beth yw effaith eich gwaith
- Cymharu cynt ac wedyn
- Gall fod yn fesuradwy (data, graffiau, ffeithiau!)
- Gall fod yn oddrychol (holiaduron, barn pobl, dyfyniadau)
- Cadw cofnod o weithredu parhaus i fod yn siŵr ei fod yn dal i fynd ymlaen fel y dylai

Nid hyn yw monitro:

- Dim ond tynnu lluniau i ddangos bod rhywbeth wedi digwydd
- Gwneud yn siŵr bod rhywbeth yn digwydd, heb gymharu hyn â'r ffordd yr arferai ddigwydd

Sut roedd pethau

Sut mae pethau erbyn hyn

Effaith eich gwaith!

Sut?

Mae monitro'n rhywbeth y dylech ei gynllunio ymlaen llaw, cyn dechrau ar y gweithredu/targed/gweithgaredd. Mae hyn yn allweddol oherwydd dylech gymharu sut roedd pethau a sut mae pethau erbyn hyn.

Bydd y dull a ddefnyddiwyd i fonitro targedau eich cynllun gweithredu'n dibynnu ar y gweithredu dan sylw ac ar allu eich disgyblion. Bydd modd monitro rhai gweithredoedd drwy gasglu data, ffigurau a chreu graffiau. Ar gyfer eraill bydd casglu barn pobl yn fwy addas. Mewn achosion eraill byddwch yn medru proffwydo beth fydd effaith eich gwaith drwy gyfrifo ar sail tybiaethau.

Trowch drosodd i weld enghreifftiau...

Enghreifftiau o Dargedau Cynllun Gweithredu a ffyrdd y gellir Monitro

Targed: Cael mwy o ddisgyblion i gerdded/beicio i'r ysgol

Cynnal cystadleuaeth rhwng dosbarthiadau. Cofnodi'r nifer o ddisgyblion sydd yn cerdded/beicio i'r ysgol bob dydd. Bydd y dosbarth â'r ganran uchaf erbyn dydd Gwener yn ennill tlws 'Esgid Aur'!

Targed: Sicrhau bod dwy ochr papur yn cael eu defnyddio cyn ei ailgylchu

Gwirfoddolwyr yn tynnu sampl o 10 dalen o bapur o fin sbwriel pob dosbarth ac yna rhoi sgôr allan o ddeg i bob dosbarth yn ôl y nifer o ddalennau a ddefnyddiwyd ar y ddwy ochr.

Targed: Sicrhau bod llai o sbwriel yn cael ei ollwng ar dir yr ysgol

Disgyblion yn cynnal arolwg wythnosol i roi gradd A, B, C neu D i bob rhan o dir yr ysgol. Y gobaith yw gweld y radd yn gwella.

Targed: Trwsio tap sy'n gollwng

Casglu'r diferion mewn cwpan am awr i gael gweld faint o ddŵr sydd yn cael ei wastraffu bob dydd/wythnos/blwyddyn. Byddwch yn gwybod wedyn faint o ddŵr gaiff ei arbed ar ôl trwsio'r tap.

Targed: Gofalu bod offer TGCh yn cael ei droi i ffwrdd pan nad yw ar waith

Byddai modd rhoi siart goleuadau traffig i bob dosbarth/y Stafell Gyfrifiaduron. Gallai'r disgyblion Eco-Fonitro roi sgôr i bob ystafell bob dydd am eu perfformiad. Mwy o olau gwyrdd = da. Mwy o goch = gwael.

Targed: Cynyddu'r ymwybyddiaeth o Fasnach Deg

Gofyn i ddisgyblion ddod â ddeunydd pecynnu gyda logo Masnach Deg arno a chreu arddangosfa, cyn, ac ar ôl, Pythefnos Masnach Deg. Bydd cynnydd yn y deunydd yn dangos a oes mwy o deuluoedd yn prynu cynnyrch Masnach Deg. Gellid cynnwys holiadau hefyd.

Targed: Cynyddu bioamrywiaeth ar dir yr ysgol

Cyfrif faint o wahanol greaduriaid a ganfuwyd ar y safle cyn gwneud gwelliannau fel rhan o waith dosbarth gwyddoniaeth. Gwneud hyn eto yr un adeg o'r flwyddyn ar ôl y gwelliannau i gael gweld a fu cynnydd mewn bioamrywiaeth.



Targed: Lleihau'r nifer o weithiau mae golau ac offer yn cael eu gadael ymlaen

Gallai Ditectifs Ynni ddsbarthu bylbiau coch pan mae golau neu gyfarpar yn cael eu gadael ymlaen. Yna cymhau'r nifer o oleuadau coch sy'n cael eu dosbarthu yn ystod yr wythnos cyn dechrau gweithredu ac wedyn.

Targed: Lleihau gwastraff bwyd

Gallai staff y cantîn gadw cofnod o faint o fwyd sydd yn cael ei wastraffu bob dydd. Gosodir y ffeithiau ar hysbysfwrdd yn y cantîn ac yna troi'r data'n graff.

Target: Lleihau gwastraff o boteli dŵr

Beth am osod bwced ym mhob dosbarth i ddisgyblion wagu'r dŵr sydd ar ôl yn eu poteli? Yna gellir cymharu faint o ddŵr sydd yn cael ei wastraffu cyn dechrau gweithredu ac wedyn.

Targed: Cadw drysau a ffenestri ar gau i gadw'r gwres yn y dosbarthiadau

Cofnodwch ddarlleniad y mesuryddion nwy a thrydan, a hefyd y tymheredd y tu allan a'r tu mewn. Dadansoddwch y canlyniadau i gael gweld a yw'r ymdrech i gau drysau a ffenestri'n gwneud gwahaniaeth.